

Cyngor Bro Trawsgoed

Adroddiad Blynyddol 1af Ebrill 2021 i 31ain Mawrth 2022

Yn unol â Ddeddf Llywodraeth Leol a Democratiaeth 2021 (Cymru) mae'n ofynnol i Gyngorau Bro gyhoeddi adroddiad blynyddol am weithgareddau'r Cyngor Bro am y flwyddyn ariannol flaenorol.

Gweler grynodedb o weithgareddau Cyngor Bro Trawsgoed ond medrir gweld fanylion llawn am y gweithgareddau o fewn cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Bro a welir ar y Safle We.

Cynghorwyr

Mae yna 10 sedd ar Gyngor Bro Trawsgoed.

Cynghorydd Paul Davies oedd y Cadeirydd hyd at 24ain o Fai 2021 ble etholwyd y Cynghorydd Peter Bonner yn Gadeirydd yn y Cyfarfod Blynyddol am y flwyddyn 2021/22 ble roedd yn flaenorol yn Is-Gadeirydd. Cynghorydd John George a etholwyd yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2021/22.

Taliadau i Gynghorwyr

Derbyniwyd argymhellion Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru o ran taliadau a lwfansau i Gynghorwyr Cymuned. Yn dilyn hyn fe wnaeth pob un Cynghorydd Bro Trawsgoed benderfynu i ymatal rhag derbyn y lwfans gorfodol o £150.00 am y flwyddyn 2021/22.

Cyfarfodydd

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd naw cyfarfod a hynny bob chwe wythnos, heblaw am fis Awst. Cynhaliwyd ddau gyfarfod wyneb i wyneb a'r gweddill yn rhithiol oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Mae pob un cyfarfod yn gyfarfodydd cyhoeddus ble mae croeso i aelodau o'r Gymuned fod yn bresennol neu wneud cyflwyniadau.

Ni fu yr un Cyfarfod Arbennig a nid yw'r Cyngor Bro yn gweithredu Is-Bwyllgorau.

Mynychodd cynrychiolwyr Gyfarfod Rhithiol rhwng Uwch Swyddogion ac Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion.

Sefyllfa Ariannol a Chyfrifon

Presept (y swm y gofynnir amdano wrth Gyngor Sir Ceredigion i weithredu cyllideb y Cyngor Bro a ariannir yn ei dro gan drethdalwyr drwy Dreth y Cyngor).

Bu'r Cyngor Bro yn gweithredu ar gyllideb o £4,500 yn flynyddol ond oherwydd Pandemig Covid-19 teimlwyd fod cyllid digonol wrth gefn gan y Cyngor Bro fel y gellid gostwng gofyniad y Presept i £3,000 yn ystod 2021/22 er mwyn lleihau gofynion ariannol ar drethdalwyr o fewn Ardal Cyngor Bro Trawsgoed.

Sefyllfa Ariannol

Balans ar 31 Mawrth 2021	£5,093.40
Derbyniadau:	£3,000.40
Taliadau:	£4,475.09
Gweddill ar 31 Mawrth 2022	£3,618.71

O fewn ffigur y taliadau uchod dosbarthwyd £1,762.00 o roddion ariannol o dan amodau Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2021-22 i naw o Gymdeithasau ac Elusennau lleol gan gynnwys rhodd ar gyfer sedd eistedd ym Mhentref Cnwch Coch.

Cyfrifon

Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliad 14 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru lunio eu cyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth, mae hyn yn cynnwys Cyngorau Tref a Chymuned.

Mae'n ofynnol i Archwilydd Mewnol archwilio'r cyfrifon a dogfennau perthnasol cyn i'r Cyngor Bro eu cymeradwyo. Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol diwethaf ar gyfrifon 2020/21 yn ystod mis Mehefin 2021, fe'i derbyniwyd gan y Cyngor Bro ar yr 28ain o Fehefin 2021 cyn trosglwyddo i'r Archwilydd Allanol, sef Archwilio Cymru.

Wedi archwiliad gan Archwilio Cymru derbyniwyd dyfarniad *Cymwysedig* ar gyfrifon 2020/21 gan nodi er fod ffigurau'r cyfrifon mewn trefn y rhoddwyd y dyfarniad hynny oherwydd nad oedd y Datganiad Llywodraethu yn gyflawn gan na chyflwynwyd cytundeb cyflogaeth i'r Clerc.

Materion a dynnwyd at sylw Cyngor Sir Ceredigion

Mae Cyngorwyr Bro Trawsgoed yn gweithio'n ddiwyd dros wardiau Llanafan a Llanfihangel-y-Creuddyn ac yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Ceredigion a'r Cyngorydd Sir Meirion Davies i sicrhau y darperir gwasanaethau effeithiol gan y Cyngor Sir ar gyfer trigolion lleol. Dyma'r materion a dynnwyd sylw at Gyngor Sir Ceredigion yn ystod y flwyddyn 2021/22 ar gyfer gweithredu.

- Problemau ar y ffyrdd o dyllau'n y ffyrdd i lifogydd, coed a sietynnau angen eu torri nol sy'n beryglus neu yn amharu ar welededd.
- Gofynnwyd am linellau gwyn gael eu hail-baentio a glanhawr ffordd i ymweld â'r pentrefi ac ailwynebu rhai o'r ffyrdd bach o fewn yr ardal.
- Cyfeiriwyd at broblemau achlysurol gyda chasgliadau ailgylchu, gwastraff bwyd a gwastraff tŷ.
- Adroddwyd at beryglon ar lwybrau cyhoeddus, gyda Swyddogion Cyngor Sir Ceredigion yn ymdrin gyda'r peryglon naill a'i eu datrys yn syth neu drwy roi mesuriadau dros dro mewn lle.
- Gwelwyd fod Arogl Carthffosiaeth yn parhau'n achlysurol o fewn Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn gyda Swyddogion y Cyngor Sir yn monitro'r sefyllfa.
- Cysylltwyd gyda Heddlu Dyfed Powys drwy gyfeirio at gerbydau'n teithio'n gyflym drwy pentrefi'r ardal yn hwyr y nos.
- Cysylltwyd gyda BT a'r Aelod Seneddol yn gwrthwynebu fod llinellau ffôn dir (landline) yn symud i Ffonau Digidol a hynny heb sicrhau fod yna signal ffôn symudol yn yr ardal pe byddai toriad yng nghyflenwad y We.

Cyflwyniadau

Cyflwynwyd Dorch o Babi Coch ar y Gofgolofn ar ran Cyngor Bro Trawsgoed mewn Gwasanaeth yn Llanafan ar Ddydd Sul y Cofio.

Llwybrau Cyhoeddus a Thir Comin

Gwahoddir tendrau yn flynyddol am dorri'r porfa ar y tir comin yn Llanfihangel-y-Creuddyn o fis Ebrill hyd ddiwedd Medi a hefyd tocio ar hyd llwybrau cyhoeddus penodol yn Llanafan hyd at ddiwedd mis Gorffennaf.

Ceisiadau Cynllunio

Trafodwyd pum Cais Cynllunio yn ystod y flwyddyn yn dilyn cais ymgynghorol gan Gyngor Sir Ceredigion yn gofyn am farn y Cyngor Bro ar geisiadau. Nodir mai Cyngorau Sir ac nid Cyngorau Bro sy'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad gan y Cyngor Bro ar dri o'r ceisiadau a danfonwyd sylwadau/gwrthwynebiadau ar y ddau gais arall.